| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **17 MAI, 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor a Chadarnhau Dyraniad Swyddi ac Oriau'r Swyddogion Cefnogi Aelodau** |
| **AWDUR** | **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Adran 15, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau yn adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor.

1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud hynny o leiaf yn flynyddol gan ei fod yn rheidrwydd gwneud hynny yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ac mewn unrhyw gyfarfod arall o'r Cyngor pan fo newid i'r cydbwysedd gwleidyddol.

1.3 Ar ddechrau tymor newydd o'r Cyngor mae rheidrwydd hefyd i adolygu'r dyraniad o unrhyw swyddi gwleidyddol rhwng y grwpiau.

1.4 Pan ysgrifennwyd yr adroddiad nid oedd union gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn wybyddus.

1.5 O'r herwydd ac yn unol â threfn y Cyngor hwn gofynnwyd i Grŵp Busnes y Cyngor gyfarfod i drafod y mater er cyflwyno argymhellion i'r Cyngor Llawn.

1.6 Bydd y Grŵp Busnes yn cyfarfod ar 16 Mai, 2012 ac adroddir ar lafar ar argymhellion y Grŵp Busnes i'r Cyngor.

1.7 Os ydy argymhellion y Grŵp Busnes yn groes i reolau cydbwysedd gwleidyddol rhaid i'r argymhellion gael eu derbyn gan y Cyngor heb i unrhyw aelod bleidleisio yn ei erbyn.

1.8 Ni dderbyniwyd yr un ymgeisydd ar gyfer sedd Ward Bryncrug ac felly ni chynhaliwyd etholiad ar 3 Mai, 2012. Cynhelir isetholiad ar 14 Mehefin, 2012 ac adolygir cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn dilyn derbyn canlyniad yr isetholiad.

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei wneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

## 3. SWYDDOGION CEFNOGI AELODAU

3.1 Yn unol â gofynion Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 mae hefyd yn ofynnol adolygu dyraniad y cymorth gwleidyddol rhwng y grwpiau yn ôl cryfder y grwpiau sydd â hawl iddynt.

3.2 Atgoffir y Cyngor bod rhai cyfyngiadau ar y nifer o swyddi o'r fath; dim ond grwpiau sydd gyda 10% o seddau ar y cyngor sydd yn medru cael cymorth gwleidyddol ac mae cyfyngiad o dri i bob cyngor.

3.3 Yn achos y Cyngor hwn felly, dim ond grwpiau Plaid Cymru, Annibynnol a Llais Gwynedd sydd yn gymwys. O fewn y gyllideb sydd ar gael rhennir yr oriau rhwng y grwpiau yn ôl cryfder cymharol y grwpiau. Rhennir yr oriau ar sail cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

## 4. CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

4.1 Er mwyn ymateb i ofynion y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o ran dyrannu'r cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau rhennir y pwyllgorau i flociau ar wahân.

4.2 Yn unol â gofynion adrannau 66 - 75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") mae yn ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei adlewyrchu yn y cadeiryddiaethau hynny a bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau.

4.3 Yn unol ag adran 83 o'r Mesur ni chaiff cadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio fod yn aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.

4.4 Yn unol ag adran 14 o'r Mesur y Cyngor Llawn sydd i benodi cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac ni all benodi aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.

4.5 Oherwydd nad oedd aelodaeth y weithrediaeth yn hysbys ar adeg cyhoeddi rhaglen y Cyngor ac na fu cyfle i'r Grŵp Busnes gyfarfod i drafod y dyraniad cyflwynir argymhellion ar gadeiryddiaethau, i gyd-fynd a'r rheolau statudol, yng nghyfarfod y Cyngor.

4.6 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol na chyfansoddiadol yn rheoli'r penodiadau i'r is-gadeiryddiaethau nac i gadeiryddiaethau gweddill y pwyllgorau (heblaw na chaiff aelod o'r weithrediaeth gadeirio'r Pwyllgor Trwyddedu). Y pwyllgorau eu hunain fydd yn ethol eu cadeirydd yn yr achosion hyn yn amodol ar y rheolau gweithdrefn sy'n cyfyngu tymor Cadeirydd i 2 flynedd.

## 5. CYRFF ALLANOL

5.1 Mae rhestr helaeth o gyrff allanol lle mae gan y Cyngor gynrychiolydd arnynt. Mae'r cyrff hyn yn amrywio'n fawr; mae rhai yn genedlaethol, rhai yn lleol eu naws, rhai yn elusennau, rhai yn gwmnïau ac yn y blaen. Enwebir y rhan helaethaf o'r cynrychiolwyr gan Grŵp Busnes y Cyngor.

5.2 Y Cyngor, serch hynny, sy'n penderfynu ar ddyraniadau'r seddau i gyrff sydd angen eu gwneud ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Mae dau o'r rhain, sef Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r cydbwysedd gwleidyddol i'r ddau gorff yma.

5.3 Bydd yr aelodau a enwebir i gynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol yn gwasanaethu ar y cyrff hyn am dymor y Cyngor.

5.4 Mae gofyn hefyd i'r Cyngor enwebu dau aelod, nad sydd am gael eu hystyried i wasanaethu ar Awdurdod yr Heddlu, i fod yn aelodau ar y Cydbwyllgor fydd yn ethol aelodau i gymryd y seddau ar Awdurdod yr Heddlu.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Gofynnir i'r Cyngor:-

(a) fabwysiadu'r cydbwysedd gwleidyddol a argymhellwyd gan Grŵp Busnes y Cyngor
(b) ddirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro i wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.
(c) benodi cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o blith yr aelodau nad sydd yn aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.
(ch) fabwysiadu'r dyraniad cadeiryddiaethau y pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol fel y nodwyd ym mharagraff 4.2 heblaw lle nad oes cytundeb.
(d) gadarnhau'r dyraniad o swyddi swyddogion cefnogi aelodau.
(dd) gadarnhau oriau'r swyddogion cefnogi aelodau
(e) gadarnhau'r cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer y cyrff allanol a enwir ym mharagraff 5.2
(f) enwebu dau aelod, nad sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer wasanaethu ar Awdurdod yr Heddlu, i fod yn aelodau ar y Cydbwyllgor fydd yn ethol aelodau ar Awdurdod yr Heddlu.